# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Care Home Ltd**

**Cartref Care Home**
**Henllan**
**Llandysul**
**SA44 5TD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

4/10/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Care Home Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | CARTREF CARE HOME LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 36 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 1/3/2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae’r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu’n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg a’i diwylliant. |

## Crynodeb

Bwriad yr arolygiad â ffocws hwn yw adolygu'r ddau Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ynghylch gweinyddu, labelu a storio meddyginiaeth yn ddiogel a gwirio a chofnodi cliriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ynghylch gweinyddu, labelu a storio meddyginiaeth yn ddiogel wedi’i gau oherwydd bod arferion wedi gwella. Cadarnhawyd hyn gan arsylwadau o roi meddyginiaeth, gwirio sut y caiff meddyginiaeth ei storio, a chofnodion cysylltiedig.

Mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ynghylch gwirio a chofnodi cliriadau staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gau oherwydd bod arferion wedi gwella. Cadarnhawyd hyn gan wybodaeth a anfonwyd gan y rheolwr a chofnodion staff a ddarllenwyd yn ystod yr arolygiad.

Nid oedd yr amgylchedd o fewn y gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i gyflawni canlyniadau personol nac i hybu eu llesiant. Nodwyd hyn fel maes i’w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf. Yn ystod taith o amgylch y gwasanaeth a sgyrsiau gyda'r bobl, nodwyd bod amgylchedd y gwasanaeth wedi gwella'n fawr.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Nid yw'r polisïau a'r gweithdrefnau'n gyfredol ac fe nodwyd hyn fel maes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf. Cadarnhawyd bod hyn wedi gwella trwy ddarllen y polisïau a thrafodaethau gyda'r rheolwr.

Nodwyd diffygion yn y drefn gyffredinol ar gyfer goruchwylio a llywodraethu fel maes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf. Cadarnhawyd bod hyn wedi gwella trwy ddarllen archwiliadau, adroddiadau a chofnodion gofal a thrwy drafodaethau gyda'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac mae'r rhyngweithio yn ofalgar. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn ac maent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd lle bynnag y bo modd gyda'r unigolyn neu ei gynrychiolydd. Mae arferion meddyginiaeth diogel ar waith. Mae'r staff gofal yn wybodus am y bobl y maent yn eu cefnogi.

Mae'r bobl yn medru mynegi eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth oherwydd bod yr unigolyn cyfrifol yn eu cynnwys nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn ei archwiliadau sicrhau ansawdd, sydd wedi gwella. Mae'r wybodaeth o'r archwiliadau mewnol yn galluogi'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol i fonitro ac i asesu ansawdd y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant. Mae'r gwelliannau a wnaed yn galluogi'r bobl i ymgartrefu mewn amgylchedd mwy cartrefol, sy'n cael ei werthfawrogi ganddynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod systemau meddyginiaeth priodol ar waith. Yn ystod arsylwadau o storio, rhoi a chofnodi meddyginiaeth, gwelwyd bod arferion diogel ar waith. Ategir hyn gan bolisi meddyginiaeth wedi'i ddiweddaru sydd wedi'i anfon at AGC gan y rheolwr.

Mae anghenion a dewisiadau unigol y bobl yn cael eu cydnabod a'u hadolygu. Mae cofnodion gofal ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae cofnodion gofal yn dangos bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymwneud yn dda â gofal y bobl. Mae anghenion iechyd unigol yn cael eu monitro a'u cofnodi. Mae dewisiadau o ran prydau a diodydd ar gael yn rhwydd ac yn cael eu cynnig.

Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn gallu darparu manylion da am hanes y bobl a'u hanghenion gofal penodol. Mae'r rhyngweithiadau rhwng y staff a'r bobl yn garedig ac yn ofalgar ac yn cael eu cynnal yn Gymraeg neu Saesneg yn dibynnu ar ddewis yr unigolyn. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus gyda'r gofal y maent yn ei dderbyn, gan gynnwys: *“mae’r gofalwyr yn garedig iawn”* ac “*mae'r staff yn hyfryd*”.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu hanghenion unigol a'u canlyniadau personol yn well. Yn ystod taith o amgylch y gwasanaeth, gwelsom luniau, paentiadau, addurniadau wal ac addurniadau eraill bellach yn cael eu harddangos mewn mannau cymunol. Mae arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r ardaloedd cymunol i helpu'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd wrth symud o amgylch y gwasanaeth. Mae seddi pellter cymdeithasol wedi'u hatal fel bod y bobl yn gallu rhyngweithio a sgwrsio'n well â'u ffrindiau, a welsom yn uniongyrchol. Dywedodd y bobl wrthym fod yr amgylchedd yn llawer gwell, gan gynnwys: *"mae'n llawer mwy cartrefol nawr"*, *"mae'n gartref i fi eto"* ac *"mae'n llawer gwell nawr"*.

Mae arferion glanhau wedi'u sefydlu, a chaiff y rhain eu trafod yn ystod y cyfarfod trosglwyddo staff yn y bore dan gadeiryddiaeth y rheolwr. Mae gorsafoedd atal a rheoli heintiau wedi'u lleoli o fewn y gwasanaeth ac mae staff yn dilyn canllawiau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cyswllt rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi ymgymryd ag ymweliadau Rheoliad 73 ers yr arolygiad diwethaf. Mae AGC wedi derbyn copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r cartref. Cadarnhaodd y staff a'r bobl hyn gyda ni – dywedodd un, *"Mae'r [unigolyn cyfrifol] yn siarad â'r staff a'r preswylwyr pan fydd yn ymweld."* Cynhelir nifer o archwiliadau o fewn y gwasanaeth a chaiff y rhain eu monitro gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol.

Mae'r bobl yn derbyn gofal gan aelodau staff sydd wedi cael y gwiriadau a chliriadau priodol ac sy'n cael eu cefnogi yn eu rôl. Dengys yr wybodaeth a anfonwyd at AGC a'r cofnodion a ddarllenwyd fod gan y gweithwyr gofal wiriadau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith. Mae hyn bellach yn cael ei fonitro'n agos gan y rheolwr.

Mae'r gweithwyr gofal bellach yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Mae hyn wedi'i gadarnhau gan y staff gofal y siaradwyd â hwy a'r cofnodion staff y gwnaethom eu darllen yn ystod yr arolygiad. Mae polisïau a gweithdrefnau'n cael eu diweddaru ac rydym wedi cael ein hysbysu gan y rheolwr ei bod yn gweithio gyda chydweithiwr o wasanaeth arall y darparwr i sicrhau polisïau a gweithdrefnau cyffelyb.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 58 | Methiant i roi meddyginiaeth mewn modd diogel yn unol ag arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a pholisi meddyginiaeth y gwasanaeth. Methiant i storio meddyginiaeth yn ddiogel. | Cyflawnwyd |
| 35 | Methiant i ddangos tystiolaeth o dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â'r gofynion, methiant i wirio gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, methiant i gadw dau eirda ar gyfer un aelod o staff, methiant i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd a sgiliau gan fod sesiynau goruchwylio wedi dyddio, methiant i gyflogi rheolwr sydd wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 12 | Nid yw'r polisïau na’r gweithdrefnau yn gyfredol ac felly nid ydynt yn arwain staff yn effeithiol. | Cyflawnwyd |
| 15 | Methiant i ddarparu gwybodaeth am sut mae pobl yn gallu cyflawni eu canlyniadau personol, methiant i gyflenwi digon o wybodaeth i gefnogi staff gofal i ddarparu gofal o ddydd i ddydd, methiant i ddiweddaru asesiadau risg mewn modd amserol gyda gwybodaeth ystyrlon yn dilyn digwyddiad arwyddocaol. | Cyflawnwyd |
| 43 | Mewn ymateb i'r cynllun gweithredu a luniwyd gan y tîm atal a rheoli heintiau i gefnogi cyfarfodydd rheoli COVID-19, roedd nifer o fannau nad oeddent bellach yn hygyrch i bobl, fel y nodwyd yn y datganiad o ddiben. Mae'r lolfa a'r ystafell fwyta wedi'u gosod er mwyn cynnal pellter cymdeithasol. Tynnwyd eitemau i alluogi cyfeiriadedd annibynnol o amgylch y cartref – gan gynnwys arwyddion dwyieithog. Nid yw'r amgylchedd yn cefnogi nac yn galluogi pobl i gyflawni canlyniadau personol ac nid yw’n hyrwyddo eu llesiant. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi